# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Caerdydd

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Caerdydd i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Mae Caerdydd yn bodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn methu â bodloni un ohonynt.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Caerdydd 8 ohonynt yn llawn, 1 yn rhannol a methodd â chyflawni 1 ohonynt.

Yn 2018/19, cafodd gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd ei ailstrwythuro, fel rhan o'r gwaith o greu Hybiau Llesiant Cymunedol, yn unol â Strategaeth Llesiant Cymunedol yr awdurdod. Mae'r gwaith ailstrwythuro hwn wedi dylanwadu ar nifer o feysydd o weithgarwch o dan y fframwaith, gan gynnwys darparu arolygon defnyddwyr, rhaglenni digwyddiadau, a lefelau staffio proffesiynol, ond ar y cyfan, mae'r perfformiad yn parhau i fod yn gryf. Mae nifer y staff cymwys ymysg yr isaf yng Nghymru fodd bynnag, ac mae hyn yn bryder posibl o ran cynnal ansawdd y gwasanaeth yn y tymor hwy. Bydd effaith lawn y gwaith ailstrwythuro hwn, a sefydlu Tîm Strategaeth Llyfrgelloedd newydd, i'w weld yn natganiad y gwasanaeth ar gyfer 2019/20.

- Mae cymorth ar gyfer iechyd a lles yn dal yn gadarn, gyda Chaerdydd yn un o ddau awdurdod yn unig sy'n cynnig yr ystod lawn o wasanaethau o dan DA 4 ym mhob man gwasanaeth, ac mae'r gwasanaeth yn arwain y gwaith ar fentrau i'r sector cyfan.
- Er bod y niferoedd sy'n mynychu gweithgareddau a digwyddiadau wedi lleihau yn 2018/19, erys y perfformiad ymhlith yr uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.
- Mae Caerdydd wedi parhau i berfformio'n arbennig o dda o ran y rhan fwyaf o ddangosyddion sy'n ymwneud â defnydd, ond mae nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir wedi lleihau unwaith eto ers 2017/18.
- Erys y targedau ar gyfer eitemau a gaffaelwyd (DA 9) yn heriol i'r gwasanaeth, ond mae gwariant ar ddeunyddiau wedi cynyddu yn 2018/19 ac mae Caerdydd yn parhau i fuddsoddi cryn dipyn mewn adnoddau Cymraeg, gyda'r gofynion o ran hyn (DA 10) yn cael eu bodloni.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi parhau ar yr un lefel, a Chaerdydd yw'r unig wasanaeth yng Nghymru bellach sy'n cyflawni'r targed staffio y pen o'r boblogaeth, ond mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth staffio integredig a gynigir drwy fannau gwasanaeth Hybiau. Mae nifer y staff cymwysedig wedi lleihau ymhellach, ac erys ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu eto yn 2018/19, sy'n adlewyrchu costau'r ymarfer ailstrwythuro i sefydlu Hybiau Llesiant Cymunedol.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Caerdydd yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ond mae oedi cyn cwblhau'r strategaeth newydd i'r gwasanaeth ar gyfer 2019/2023 yn derfynol yn golygu mae'n methu â chyflawni HD12 o hyd. Nodir bod disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau ei ymgynghoriad ar y strategaeth sydd i'w hystyried gan y Cabinet yn ddiweddarach yn 2019. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion ym mhob maes arall, ac mae ei strategaeth ar gyfer Hybiau yn ychwanegu at adeiladau llyfrgelloedd, ac mae partneriaethau cadarn yn cynnal ac yn datblygu ystod o wasanaethau.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Caerdydd yn cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 1 o'r dangosyddion.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawnwyd? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau y pen o'r boblogaeth | x | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg | ✔ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth | ✔ | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |

| | | |
|---|---|---|
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff y pen o'r boblogaeth | ✔ | |
| ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

Ceir gwelliant bach ers 2017/18, gyda Chaerdydd yn cyflawni'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau o fewn 15 diwrnod, ac felly mae DA 12 yn cael ei gyflawni'n llawn bellach.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Bydd arolygon o ddefnyddwyr Caerdydd yn cael eu cynnal yn nhrydedd flwyddyn y fframwaith bellach; mae'r gwasanaeth yn cwblhau ei arolygon adeg gadael ei hun yn lleoliadau'r Hybiau, sy'n cyflawni cyfraddau boddhad o tua 95-99% yn gyson.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | dd/b | | 60% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 93% | *4/15* | 38% | 88% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 100% | *=1/20* | 80% | 97% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Caerdydd bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Caffi Dementia – mae hwn yn cyfarfod ddwywaith y mis yn y Llyfrgell Ganolog ac mewn Hybiau eraill, gan roi gwybodaeth i bobl sy'n byw gyda dementia, a lle diogel i siarad a rhannu syniadau. Yn achos un defnyddiwr sy'n dod yn rheolaidd, mae'r Caffis yn gyfle pwysig i gymdeithasu, cymryd rhan mewn sesiynau cofio a gweithgareddau eraill, a gwneud ymarfer corff (gan ddefnyddio'r cyfleuster tenis bwrdd a ysbrydolwyd ei diddordeb yn y gamp).
- Grŵp Darllen Cymraeg – y ffordd mae'r grŵp darllen misol yn y Llyfrgell Ganolog wedi helpu dyn ymddeoledig i ddatblygu ei hoffter o ddarllen, rhoi cynnig ar genres llenyddol newydd, a gwneud ffrindiau. Mae'r grŵp yn weithgarwch cymdeithasol pwysig iddo, a

helpodd i sefydlu grŵp WhatsApp er mwyn i'r trafodaethau barhau y tu allan i gyfarfodydd.

- Gweithdy Barddoniaeth – prosiect sy'n gweithio gydag ysgol gynradd leol ac yn defnyddio adnoddau'r llyfrgell sydd ar gael yn Hwb Llanisien i ennyn diddordeb mewn barddoniaeth a chreu cerddi unigol a cherddi grŵp. Bu'r gweithdy yn fodd i'r plant ddangos eu galluoedd creadigol a disgrifiadol, gan ysbrydoli un plentyn â mudandod dethol i gymryd rhan yn llawn.
- Cymorth Cyflogaeth i Ffoaduriaid – effaith y rhaglen hon gan y llyfrgell ar ffoadur o Syria, sef gwraig weddw a mam sengl ag Anhwylder Straen Wedi Trawma, heb sgiliau llythrennedd nac ariannol na phrofiad. Drwy'r rhaglen hon cafodd ei hannog i geisio cwnsela, mae wedi gwella ei hyder, mae wedi dysgu sut i ddelio â'i materion ariannol, mae'n dysgu Saesneg drwy ddosbarthiadau yn y Llyfrgell Ganolog, ac mae'n gwneud ffrindiau newydd.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerdydd ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| **Dangosydd perfformiad** | | ***Safle*** | **Isaf** | **Canolrif** | **Uchaf** | ***2017/18*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | dd/b | | 24% | 82% | 96% | *71%* |
| c) iechyd a lles | dd/b | | 33% | 62% | 94% | *43%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | dd/b | | 90% | 97% | 100% | *95%* |
| DA 2 – Boddhad cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | dd/b | | 81% | 91% | 98% | *84%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 93% | 99% | 100% | *93%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 65% | 91% | 95% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol | dd/b | | 93% | 97% | 99% | *95%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | dd/b | | 8.5 | 9.3 | 9.5 | *9.5* |
| DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth | 184 | *2/22* | 13 | 30 | 208 | *212* |
| c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth | 245 | *10/22* | 15 | 199 | 433 | *242* |
| DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth | 499 | *3/22* | 91 | 295 | 689 | *684* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 7,170* | *1/22* | 2,596 | 3,969 | 7,170* | *7,014* |
| b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 2,205 | *1/22* | 345 | 885 | 2,205 | *2,211* |
| c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth | 251 | *1/22* | 58 | 150 | 251 | *229* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth[2] | 1,193 | *2/22* | 95 | 602 | 1,424 | *1,183* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth[3] | 11 | *4/22* | 5 | 10 | 14 | *11* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 49% | *3/22* | 14% | 25% | 63% | *56%* |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 214 | *1/21* | 3 | 30 | 214 | *196* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 6,587 | *2/21* | 90 | 1,477 | 9,806 | *6,145* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth | £17,153 | *3/22* | £7,181 | £12,145 | £19,449 | *£15,937* |
| b) % ar staff | 76% | *2/22* | 47% | 62% | 78% | *74%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 8.7% | *20/22* | 8% | 13% | 21% | *9%* |
| % ar offer ac adeiladau | 15% | *3/22* | 0.4% | 4% | 25% | *17%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 0.3% | *22/22* | 0.3% | 16% | 37% | *0%* |
| c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth | £3,549 | *5/22* | £0 | £467 | £8,829 | *£12,736* |
| DA 15 – Cost net am bob ymweliad | £1.39 | *=17/22* | £1.18 | £1.82 | £2.52 | *£1.24* |
| DA 16 – Oriau agor[4] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.02% | *16/22* | 0.00% | 0.00% | 0.25% | *0.01%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.73% | *14/20* | 0.00% | 0.28% | 7.99% | *0.33%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân*
*[2] fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo*
*[3] fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl [4] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau.*

Cydnabyddir bod costau gwasanaeth (DA 14 a 15) bellach yn ymwneud â chyllidebau integredig Hybiau a Llyfrgelloedd, ac felly nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol ag awdurdodau llyfrgell eraill.

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw gwasanaeth Caerdydd wedi cynnal ei arolygon o ddefnyddwyr eto, a nodir y cânt eu cynnal ym mlwyddyn tri o'r fframwaith. Mae pob llyfrgell sefydlog sydd ar agor am 10 awr neu fwy yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth llawn ar gyfer iechyd a lles, gyda Chaerdydd yn arwain gwaith ar fentrau i'r sector cyfan yn y maes hwn. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi lleihau ers 2017/18, gan adlewyrchu llai o arlwy oherwydd gwaith adnewyddu ar safle un o'r Hybiau, ond mae perfformiad y pen o ran hyn yn dal i gyrraedd y lefel uchaf ond un yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu, sy'n gysylltiedig â'r galw mawr am gymorth penodol ymhlith demograffeg allweddol, ac erys y perfformiad o ran hyn uwchlaw'r lefel ganolrifol.

## 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerdydd yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sylweddol uwch a oedd wedi mynychu yn y maes hwn yn 2017/18 wedi lleihau ac wedi mynd yn is na lefelau 2016/17, ond erys y perfformiad ymhlith yr uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Nodir ymarfer ailstrwythuro'r gwasanaeth, o dan Strategaeth Llesiant Cymunedol Caerdydd, fel ffactor o ran hyn, ac mae'r gwasanaeth yn dal i gynnig rhaglen amrywiol ac eang ei chwmpas. Mae lefelau ymwelwyr wedi parhau i gynyddu, gan adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o wasanaethau bellach yn gweithredu fel Hybiau Cymunedol neu Lesiant sy'n darparu ystod o wasanaethau. Fodd bynnag, mae nifer y benthycwyr gweithredol ac aelodau llyfrgell wedi cynyddu hefyd, gan ddangos bod y gwasanaethau llyfrgell yn parhau i ymestyn eu cyrhaeddiad. Er bod nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir wedi lleihau, mae lefelau benthyca llyfrau plant yn parhau'n gadarn, gyda'r gwasanaeth bellach yn cofnodi'r nifer uchaf o fenthyciadau i blant y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.

## 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[i]

Mae'r gofynion o ran deunydd darllen cyfredol (DA 9) yn parhau i fod yn heriol i'r gwasanaeth, ac nid yw'r targedau o ran hyn yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, mae wedi cynyddu gwariant ar ddeunyddiau yn 2018/19, ac mae'n parhau i fuddsoddi'n gadarn mewn adnoddau i blant, ac mewn deunyddiau Cymraeg (DA 10), lle y cyrhaeddir y safon. Mae'r perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau wedi gwella ers 2017/18, gyda'r ddau darged yn cael eu cyflawni bellach. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi cynyddu unwaith eto er mwyn rhoi cymorth ar gyfer Credyd Cynhwysol; fodd bynnag, mae'r defnydd a wneir ohonynt wedi lleihau yn 2018/19, tuedd a welir ledled Cymru wrth i fwy o ddefnyddwyr ddefnyddio Wi-Fi o'u dyfeisiau eu hunain.

## 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi parhau ar yr un lefel â 2017/18, a Chaerdydd yw'r unig wasanaeth yng Nghymru bellach sy'n cyflawni'r targed ar gyfer cyfanswm y staff y pen o'r boblogaeth (DA 13), er mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth staffio integredig a gynigir drwy fannau gwasanaeth Hybiau. Fodd bynnag, mae nifer y staff cymwysedig wedi parhau i leihau, ac mae bellach yn agos i'r lefel isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru, sy'n bryder posibl o ran cynnal ansawdd gwasanaethau yn y tymor hwy. Nodir i nifer o staff cymwysedig ddewis gadael y gwasanaeth yn ystod yr ymarfer ailstrwythuro diweddar, a bod hyn wedi effeithio ar berfformiad o ran hyn. O dan y strwythur newydd mae Tîm Strategaeth Llyfrgelloedd sydd â chymwysterau proffesiynol wedi cael ei roi ar waith ac mae'n bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ar gyfer llyfrgelloedd penodol, ac mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i helpu staff i gwblhau cymwysterau perthnasol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae Caerdydd wedi parhau i wella ei fuddsoddiad yn hyfforddiant / datblygiad y staff. Mae nifer y gwirfoddolwyr a chyfanswm oriau gwirfoddolwyr wedi cynyddu, gyda 214 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tua 31 awr yr un i'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu unwaith eto yn 2018/19, gyda gwariant cynyddol ar staffio, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod staff dros dro wedi cael eu cyflogi wrth i'r gwasanaeth gael ei ailstrwythuro. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar

lefelau 2017/18, ac mae'r targed o ran hyn yn parhau i gael ei gyflawni, gyda chyn lleied o amharu ar y gwasanaeth â phosibl.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Caerdydd yn nodi'r ffordd y mae'r gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd yn cyfrannu at gyflawni strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb, ac yn helpu i gyflawni'r nodau Llesiant. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau, gweithio gyda phartneriaid i wella iechyd a lles, cymorth ar gyfer agenda Heneiddio'n Dda, ac i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Caerdydd yn nodi y bydd ei strategaeth Hybiau Llesiant Cymunedol yn parhau i gael ei datblygu, a fydd yn arwain at ddatblygiadau yng ngogledd y ddinas yn y llyfrgelloedd sy'n weddill nad ydynt yn hybiau eto. Bydd yr Hybiau newydd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau yn seiliedig ar anghenion lleol, ond gyda darpariaeth llyfrgell fel elfen graidd, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol i annog darllen, hybu iechyd a lles, cefnogi plant a phobl ifanc, hyrwyddo cynhwysiant digidol, mynd i'r afael â thlodi, a dathlu treftadaeth a diwylliant. Mae eraill yn cynnwys parhau i gynnig cyfleoedd hyfforddiant i'r staff, gan gynnwys cymwysterau NVQ mewn llyfrgellyddiaeth.

## 6 Casgliad

Yn 2018/19, cafodd gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd ei ailstrwythuro, fel rhan o'r gwaith o greu Hybiau Llesiant Cymunedol, yn unol â Strategaeth Llesiant Cymunedol yr awdurdod. Mae'r gwaith ailstrwythuro hwn wedi dylanwadu ar nifer o feysydd o weithgarwch o dan y fframwaith, gan gynnwys darparu arolygon defnyddwyr, rhaglenni digwyddiadau, a lefelau staffio proffesiynol, ond ar y cyfan, mae'r perfformiad yn parhau i fod yn gryf. Mae nifer y staff cymwys ymysg yr isaf yng Nghymru fodd bynnag, ac mae hyn yn bryder posibl o ran cynnal ansawdd y gwasanaeth yn y tymor hwy. Bydd effaith lawn y gwaith ailstrwythuro hwn, a sefydlu Tîm Strategaeth Llyfrgelloedd newydd, i'w weld yn natganiad y gwasanaeth ar gyfer 2019/20.

---

[i]Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.